Croeso'n ôl i Smotyn

Gofal

Ci bychan gwyn efo un smotyn du ar ei gefn oedd Smotyn. Dyna pam roedd ei berchnogion wedi'i alw'n Smotyn. Ci annwyl iawn oedd Smotyn. Byddai wrth ei fodd yn cael mynd am dro. Dyna lle byddai'n arogli ymhob twll a chornel. Ar ôl gorffen ogleuo byddai yn codi'i goes ar bob bonyn coeden yn yr ardal. Un diwrnod pan oedd yn rhedeg yn y parc gwelodd gwningen fawr lwyd. Rhuthrodd ar ei hôl. Gwaeddodd ei berchennog arno, "Smotyn! Smotyn!" Ond doedd dim yn tycio. Dim ond un peth oedd ar feddwl Smotyn. Y gwningen fawr lwyd! Bu'n rhaid i'w berchennog ddod adref hebddo.
"Mae'n siŵr o wybod ei ffordd adref," meddai wrtho'i hun.
Gadawodd y drws yn agored. Ond erbyn y bore doedd Smotyn ddim yno. Dechreuodd y plant grio. "I ble mae Smotyn wedi mynd? Efallai bod rhywun wedi'i ddwyn!"
Ffoniodd ei berchennog yr heddlu gan roi disgrifiad manwl o'r ci. Rhoddwyd hysbyseb yn y papur lleol. Ond doedd dim golwg o Smotyn yn unman. Doedd neb wedi'i weld. Pan fyddai Ifan yn dod adref o'r ysgol yr un oedd y cwestiwn, "Ydi Smotyn wedi dod yn ôl?" Yr un oedd cwestiwn Catrin, "Ydi fy nghi bach wedi dod yn ôl?"
"Ci bach, pwy?" gofynnodd ei thad. "Fy nghi bach i, wir! Fi oedd yn gofalu am Smotyn. Fi oedd yn ei fwydo, fi oedd yn mynd a fo am dro bob gyda'r nos a fi oedd yn gorfod rhoi bath iddo bob hyn a hyn."
"Wel mi roeddwn i yn mynd a fo am dro weithiau," meddai Catrin.
"Weithiau, wir, unwaith y flwyddyn dyna i gyd," meddai ei thad, "ond gwrandewch mi ydw i'n fodlon cael ci bach newydd i chi."
Edrychodd Ifan a Catrin ar ei gilydd.
"Ond, ac mae yna 'ond' mawr. Chi fydd yn gorfod ei fwydo, bob dydd. Chi fydd yn gorfod mynd a fo am dro, bob dydd. Chi fydd yn gorfod ei hyfforddi. Chi fydd yn gorfod rhoi bath

iddo. Ydych chi'n deall?"
"Ydyn, ydyn," meddai'r ddau blentyn efo'i gilydd.
Roedd bron i bythefnos wedi mynd ers i Smotyn ddiflannu. Roedd Catrin ac Ifan yn dal i hiraethu amdano. Ond roedd y syniad o gael ci bach newydd yn codi eu calon.
"Pa bryd ydyn ni am gael ci newydd dad?" holodd Catrin.
"Mi awn i chwilio am un ddydd Sadwrn nesaf," atebodd y tad.
"Tri diwrnod i fynd," gwaeddodd Ifan.
Y noson honno, tua chwech o'r gloch, pwy gerddodd i'r tŷ yn edrych yn ddigalon ond Smotyn. Wel, dyna groeso gafodd o. Ond roedd o'n edrych yn fudr ac yn denau
Y noson honno cafodd fath, a llond disgyl o'i hoff fwyd ac ar ôl hynny bu Ifan a Catrin yn gofalu amdano.

O Dduw, helpa ni i gofio fod pob anifail anwes yn greadur byw. Amen.

✦ Ydyn ni'n caru ein hanifeiliaid anwes gymaint ag y mae nhw yn ein caru ni.
✦ Oes gennych chi anifail anwes? Ydych chi'n gofalu amdano? Dywedwch dipyn o hanes eich anifail anwes.